CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**06.11.25**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*

## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*

## *Hwb LlanNi*

## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** EY (Cadeirydd) RJ; AR; TAJ; DAW; GW; IW; RY;JOJ<br>**Ymddiheuriadau:** DP;LLMH; EO; JAJ<br>**Mynychu:** SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau uchod. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd RJ ddiddordeb yn Eitem 8 Materion Safleoedd – Lawnt Fowlio. |
| **3** | **Cofnodion 02.10.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 02.10.25 fel rhai cywir (DAW/AR)<br><br>**Materion yn Codi**<br>**Sul y Cofio –** trefniadau i gyd mewn llaw. Diolchwyd i'r aelodau perthnasol am eu gwaith yn trefnu.<br>**Materion Priffyrdd –** dim diweddariad ar y Cynllun Gweithredu. Grant i law i adnewyddu'r golau rhybudd gor-yrru ger Bryn Golau. Angen holi DP os oes modd torri gwrychyn ochr y cae ger troadau Coedana.<br>**Cloc y Pentref** – infois i law gan CSYM am gysylltu trydan i'r cloc o'r polyn golau – cytunwyd yn unfrydol i'w dalu £428.87. Clerc I holi |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
LLANNERCH-Y-MEDD
Ynys Môn LL71 8EG
Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | ymhellach fyth am drwsio'r Lych Gate. Canopi wedi osod ond poryder am y to<br><br>**Diffibrilyddion –** Clerc wedi cael cyfarfod gyda Tomos Hughes Swyddog a eglurodd y camau nesaf os yw CC Llan am fabwysiadu'r cyfrifoldeb. Cytunwyd yn unfrydol i CC Llan gymryd y cyfrifoldeb am y diffibrilyddion yn y pentref. JOJ i holi os yw GillianThomas yn fodlon parhau i edrych ar ol un Carmel ac adrodd i CC Llan fel bo'r gofyn.<br><br>**Hyfforddiant Cod Ymddygiad -** dyddiad wedi ei bennu – 9 Rhagfyr pawb i fynychu yn yr Hwb ar ZOOM.<br><br>**Cynghrair Talybolion** – cais wedi bod yn llwyddiannus am olau gor yrru ar Lon Amlwch. Clerc i weithredu 'mhellach.<br><br>**Cytuneb Amddiffyn Tan –** rhannodd y Clerc brisiau gan 4 cwmni – heb fanylion y cwmniau. Cynnigiodd GW rhif 3 (Cwmni Paragon) ac fe eilwyd gan IW – cytunwyd yn unfrydol.<br><br>**Llifolau Cae Astro –** Gwaith diogelu mynd rhagddo.<br><br>**Glan Menai –** ymateb wedi ei ddrebyn trwy ebost ac wedi ei rannu gyda'r aelodau. Cytunwyd i gadw golwg ar y sefyllfa ac i'r aelodau annog unrhyw bryderon gael eu cyfeirio'n syth i'r Feddygfa yn unol a'u cyfarwyddyd y Rheolwr Practis.<br><br>**Cynwysyddion Carmel –** Clerc i rannu ebost diweddaraf gan CSYM.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 06.11.25 |
| **4** | **Materion trwy'r Gadair**<br><br>**Ebost Declan Pritchard –** trafodwyd cynnwys yr ebost a gylchredwyd eisoes. Cytunwyd na fyddem fel CC Llan yn cefnogi unrhyw 'recordio' i gefnogi tudalen 'crowd funding' gan mai busnes preiofat yw'r Cwmni.<br><br>Mynegwyd pryder am y diffyg ymgynghori hyd yma gyda thrigolion y gymuned. Mae nifer o sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol bellach gan gynnwys pryderon gan breswylwyr Maes Athen ac am nodweddion archaelegol y safle.<br><br>Clerc i ateb yr ebost yn nodi'r uchod.<br><br>**Bagiau dal baw ci –** mynegodd DAW bryder am sefyllfa bocsus dal bagiau ar gyfer baw ci. Yn dilyn llenwi'r 11 bocs, drannoeth roedd 4 yn wag – mae 150 o fagiau yn cael eu gosod ym mhob bocs. Mae archeb yn costio £77.88. pob 6 wythnos ar gyfartaledd. Cytunwyd i osod arwydd i gau ar 4 o'r bocsus sy'n cael eu gwagio ac i'r Clerc archebu cyflwenwad arall. |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Treth Busnes Uned 5/6 Tan y Foel –** nododd y Clerc bod bil treth o £3K i law ar gyfer Uned 5/6. Nododd ei bod mewn trafodaeth gyda'r Adran CSYM ac yn derbyn cefnogaeth gan Cyng J. Lewis.<br><br>**Bin Sbwriel CPD** – trafodwyd ohebiaeth gan CSYM am wasanaeth gwagio'r bin. Clerc / RY i holi ymhellach am yr opsiynau a thrafod yn nghyfarfod mis Ionawr.<br><br>**Cydnabyddiaeth sbwrela –** nodwyd bod Mrs Ann Jones yn gwirfoddoli i sbwrela ardaloedd Glan Menai a Chae Gofeb. Cynigiodd DAW i daliad cydnabyddiaeth o £200 iddi ddiwedd Rhagfyr, eilwyd gan RY ac fe gytunwyd yn unfrydol. Nid oedd Cyng R Jones yn bresennol yn y drafodaeth.<br><br>**Ebost Eglwys Ceidio –** adroddodd y Clerc am ebost dderbyniodd gan Alan Kennett yn gofyn am yr hawl i gyflwyno cais am grant i gynnal a chadw Eglwys Ceidio trwy'r Loteri Treftadaeth. Cytunwyd yn unfrydol i'r cais ac i Mr Kennett gyd-weithio gyda'r Clerc fel bo'r gofyn.<br><br>Mae Mr a Mrs Kennett yn gweithio'n wirfoddol i oruchwylio'r Eglwys ac mae diolch CC Llan yn fawr iddynt am eu gofal a'u hamser. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 02.10.25**<br><br>• Cyflog Clerc – Hydref = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM X 2<br>• Nwy Prydain Trydan Clwb Bowlio £22.51<br>• Nwy Prydain trydan Uned 1 £13.23<br>• Nwy Prydain trydan Goeden Dolig £13.70<br>• Nwy Prydain trydan Uned 2 £17.99<br>• Nwy Prydain trydan CPD £86.24<br>• JRB Enterprises – bagiau baw ci - £77.88<br>• GP Fire Service – CPD a Clwb Bowlio £30 X 2<br>• GP Fire Service – Stesion £88.85<br>• Meirion Grieves – trwsio a diogleu wal capel Jeriwsalem £500<br>• Newy Prydain – Clwb Bowlio £21.93<br><br>**Biliau cyfredol**<br>Dim i law.<br><br>**Cyfrif Cyfredol**: £2991.42<br>**Cyfrif Cadw:** £45170.09 (oddeutu £20K i Hwb LlanNi) Wedi derbyn £5350.39 taliad ½ blwyddyn Melinau Gwynt<br><br>**Cyfrifon Blynyddol 2024-25 -** parhau i ddisgwyl dyfarniad. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | | |
|---|---|
| 6 | **Materion Cynllunio** - dim i law |
| 7. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** dim presenoldeb<br>. |
| 8 | **Materion Safleoedd**<br>**Unedau Tan y Foel –** dim diweddariad gan CSYM ar y broses o werthu y llain a'r ddau gompowd. Asiant yn dal i holi.<br>**Safle'r Stesion** – twll yn y Maes Parcio – TAJ am ofyn i RPO Williams<br>**Lawnt Fowlio –** Clwb Benllech yn awgrymu gadael y coed ond trwshio'r ffens – ymlaen i drafodaeth bellach ym mis Ionawr.<br>Tap dwr angen ei drwshio – Clerc i weithredu Cytunwyd nad oes angen trefnu cwmni glanhau ar gyfer y Pafiliwn ar hyn o bryd.<br>**Clwb Peldroed –** gwaith ar y cais gan Cai ab Arfon yn mynd rhagddo.<br>**Mynwentydd** – aelodau i ystyried argymhellion yr Is Bwyllgor a dod i benderfyniad yng nghyfarfod mis Ionawr.<br>**Cae Gofeb –** dim i law<br>**Rhandiroedd** – trafodwyd eisoes.<br>**Cae Astro** – gwaith yn mynd rhagddo gyda Swyddog Mon Actif i geisio grant i uwch raddio. |
| 9. | **Gohebiaeth**<br>Nodwyd cynnwys yr ohebiaeth a gylchredwyd eisoes trwy ebost ers cyfarfod mis Hydref ag fel a restrwyd ar Raglen 6.11.25. |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm* | |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cygngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383